


Future Comisiynydd
Generations Cenedlaethau'r
Commissioner Dyfodol
for Wales Cymru

Siarad Cenedlaethau'r Dyfodol y sgwrs hyd yn hyn





Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Ers i mi gychwyn ar fy swydd ym mis Ebrill mae'r hyn a olygir mewn gwirionedd gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bobl ar draws Cymru, a'i photensial i newid pethau er gwell eisoes yn amlwg.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn gyda phartneriaid i sefydlu swyddfa ac isadeiledd yn barod i gefnogi cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r Ddeddf. Ac mae wedi bod yn flaenoriaeth i mi i fynd o le i le i wrando ar bobl – pu'n ai'r bobl broffesiynol â chyfrifoldeb o dan y ddeddfwriaeth newydd, neu'r cymunedau sydd mor obeithiol ynglŷn â'r newidiadau a ddaw yn ei sgil.

Erbyn mis Tachwedd, byddaf wedi cwrdd â phob un o'r 44 corff cyhoeddus. Rwyf hefyd wedi cyfrannu i dros 100 o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo cenedlaethau'r dyfodol yma a thramor. Rwyf wedi cwrdd â Ysgrifenyddion Cabinet, arweinyddion y trydydd sector, ystod o arbenigwyr ac wedi siarad mewn digwyddiadau cenedlaethol yn cynnwys Gŵyl y Gelli a Sioe Frenhinol Cymru.

Hefyd roedd y gyfres o gyfarfodydd a gynhaliats ledled Cymru'n bwysig iawn ac fe'u mynychwyd gan sawl cant o bobl a siaradodd â mi am y materion pwysig yn eu cymunedau a sut y gall y Ddeddf hwyluso newid cadarnhaol ac annog ymglyfraniad y gymuned.

Mae'n amlwg oddi wrth yr adborth bod pobl eisiau ymgysylltu a chyfrannu ond yn rhy aml maent wedi "blino ar ymgynghori" felly rwyf wedi ymrwmo i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o ennyn ymglyfraniad pobl drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol ac arloesol. Mae pobl yn teimlo'n rhwystredig hefyd am nad ydynt yn derbyn digon o adborth.

Felly mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn a ddysgais o'r cyfarfodydd rhanddeiliaid a sut y bydd hyn yn llywio'r meysydd y byddaf yn rhoi blaenoriaeth iddynt fel eich Comisiynydd, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau â'r cyrff cyhoeddus a'r ymgynghoriad Y Gymru a Garem, a ymgysylltodd â 7,000 o bobl.

Rydym yn awr yn dwyn hyn i gyd at ei gilydd gyda thystiolaeth sy'n amlygu'r materion allweddol, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd byddwn yn amlinellu'n fanylach y meysydd yr wyf yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.

Yn y cyfamser, gallwch gysylltu drwy gyfrwng: cysylltwchâni@cenedlaethaurdyfodol.cymru neu [@futuregencom](https://www.facebook.com/futuregencom).

Meysydd blaenoriaeth posibl

Yn seiliedig ar beth ydych wedi dweud wrthyf hyd yn hyn, dyma'r materion sy'n dod i'r amlwg fel meysydd blaenoriaeth posibl. Byddaf yn gweithio gydag amrywiaeth o arbenigwyr a phartneriaid i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r materion hyn a'u harwyddocâd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol cyn cwblhau'r meysydd y byddaf yn canolbwyntio ar.

- **Y blynyddoedd cynnar, gyda ffocws arbennig ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ar ofal plant**
- **Ffyniant economaidd, yn cynnwys heriau'n ymwneud â chyflogaeth a sgiliau**
- **Tueddiadau'r dyfodol, yn cynnwys tueddiadau poblogaeth megis y boblogaeth sy'n heneiddio**
- **Y newid yn yr hinsawdd, cydnerthedd amgylcheddol a chynhyrchu ynni**
- **Anghydraddoldebau iechyd gyda ffocws arbennig ar ofal iechyd ataliol**
- **Rhyng-gysylltu, yn cynnwys ymagwedd integredig tuag at fargeinion dinas-ranbarth; ffordd liniaru'r M4, y system Fetro a seilwaith cymunedau**
- **Seilwaith gwledig a dyfodol ffermio**
- **Cydnerthedd cymunedau, gyda'r ffocws ar seilwaith cymunedau a thai fforddiadwy**
- **Tlodi, amddifadedd a diffyg ymgysylltiad**

Lleoliad digwyddiadau rhanddeiliaid




Ymrwymïadau eraill
(Mynegai llawn ar gefn yr adroddiad)



Cyfarfodydd gyda
44
chyrff cyhoeddus

Wedi cyfrannu
i dros
100
digwyddiad

190
Ymrwymïadau
arall



Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

"Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory"

Y Cenhedloedd Unedig, 2015

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y nod yw peri i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a gyda'i gilydd a cheisio atal problemau rhag digwydd, a mynd i'r afael â materion cyffredin drwy fabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

Mae'r Ddeddf hefyd yn creu rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – gwarcheidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Ei rôl yw cynorthwyo'r 44 corff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i weithio tuag at wireddu'r nodau llesiant a monitro ac adrodd ar eu cynnydd

Beth yw'r materion o bwys?

Cyflogaeth

Prinder cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, nifer mawr o NEETS (ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant), llawer o bobl mewn gwaith â chyflog isel, mewn swyddi rhan amser.

Ardaloedd gwledig a diffyg cysylltiad

Diffyg cysylltiad rhwng yr ardal â thrafnidiaeth a gwasanaethau, sy'n cael ei wneud yn waeth gan her poblogaeth sy'n heneiddio. Pryderon arbennig am ansawdd gwasanaethau iechyd mewn gwahanol fannau, yn cynnwys dros y ffin â Lloegr ac effaith hyn ar fywydau pobl.

Amddifadedd a diffyg ymgysylltiad

Mae ardaloedd o amddifadedd yn amlwg yn amddifad, ac fel arfer y bobl sy'n byw yno yw'r rhai â'r lleiaf o ymgysylltiad. Yn arbennig, mae pobl ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu 'symud ymlaen' o un rhaglen i'r llall.

Rôl y trydydd sector

Mae sefydliadau'n cyflawni ystod o wasanaethau hanfodol ond yn canolbwyntio ar oroesi oherwydd y cylchoedd cyllido tymor byr.

Sut allai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i greu newid, a phwy sydd ag angen iddynt greu newid?

“Mae angen i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau gerdded ar hyd yr un llwybr â'r bobl ar y lefel sylfaenol.”

Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried 'llais eu cymuned' a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r modd y mae gwybodaeth o gymunedau'n cael ei throsglwyddo i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn osgoi 'hidlo'r' hyn y mae pobl yn ei ddweud.

Ymgysylltiad ac ymgysylltiad

"Yn Sir y Fflint roedden nhw'n ymgynghori ar 3 ysgol oedd yn cael eu cau. Gofynasant i rieni a oeddent yn ddu, yn hoyw, gwrywaidd, benywaidd ayyb, ond ni ofynnwyd a oedd unrhyw un o'r rhieni'n methu gyrru. Yr unig ffordd i gyrraedd yr ysgol oedd mewn car..."

Rhannu arfer gorau

Mae'n bwysig bod pobl yn cael man mynediad ar gyfer rhannu eu profiadau a'u syniadau.

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd o dechnoleg ddigidol fel dull o rannu anghenion arfer gorau am fod gan lawer o ardaloedd yng Nghymru gysylltiadau band eang gwael.



Atal

Mae gwasanaethau fel petaent yn aros hyd nes bydd argyfwng yn digwydd cyn iddynt ymyrryd, ac mae angen ymagwedd wahanol. Fodd bynnag, tra bo symud adnoddau i atal argyfyngau'n hollbwysig, mae angen i gyrff cyhoeddus hefyd gydnabod bod stori'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bwysig.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i gyd-ffocysu ar broblemau trawsbynciol, ond mae angen mwy o ffocws ar y tymor hir ac ar ymgyfraniad arwyddocaol. Dylai Aseidiadau o Lesiant ganolbwyntio ar ddadansoddi'r hyn sy'n achosi materion o bryder mewn ardal.

Amserlenni ar gyfer newid

Mae yna wrthdaro rhwng amserlenni gwleidyddol ac amserlenni cenedlaethau, sy'n ei gwneud hi'n anodd gweithredu ar gyfer y tymor hir. Mae yna ofn ynglŷn â gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau tymor hir, rhag ofn bod y tueddiadau'n anghywir ac fe fyddai'n ddefnyddiol iawn petai ffrydiau cyllido wedi eu halinio ac yn canolbwyntio ar y tymor hir. Mae cyllido tymor byr yn creu problemau cymhwyster, gan fod pobl yn canolbwyntio ar gyllid ar gyfer olyniaeth.

"Mae angen llwybr clir i breswylwyr a sefydliadau cymunedol fedru siarad â phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Hefyd, mae angen cyfathrebu dwy ffordd – rydym ni angen mwy na digwyddiad ymgynghori, mae ar bobl angen gwybod beth sy'n digwydd a chael rhywun i ddweud wrthynt 'nawr eich bod wedi gofyn hyn i ni, sut yr ydym yn mynd i weithredu'. Mae pobl wedi alaru ar ymgynghori ac mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall sut i ymgysylltu â phobl mewn dull effeithiol".

Beth yw'r materion o bwys?

Hygyrchedd ac ardaloedd gwledig

Mynediad i wasanaethau a chyfleusterau megis gofal iechyd (mae denu meddygon ymgynghorol yn anodd). Seilwaith gwael mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus a seilwaith/band eang TGCh. Poblogaeth sy'n heneiddio ac unigedd cynyddol, a thlodi gwledig/tanwydd.

Tai fforddiadwy

Prinder tai, yn arbennig i bobl ifanc. Y system gynllunio bresennol (Cynllun Datblygu Lleol) ddim yn cynorthwyo tai fforddiadwy.

Cyflogaeth a sgiliau

Prinder swyddi yn arbennig i bobl ifanc yn arwain at allfudo. Canol trefi'n wag. Prinder sgiliau (magu plant) yn effeithio ar genedlaethau.


Amgylchedd, cydnerthedd ac ynni adnewyddadwy

Cyfleoedd i gymunedau gynhyrchu ynni adnewyddadwy ddim yn cael eu sylweddoli. Effaith ffermio ar yr amgylchedd; prinder cydnerthedd, bioamrywiaeth ac amgylchedd iach. Problemau'n ymwneud â chyfnerthedd a diogelwch bwyd, a hysbysebu bwyd ar yr un pryd yn arwain at ordewdra. Prinder ymwybyddiaeth o broblemau allweddol, yn arbennig rhai'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

Dinasyddiaeth weithredol ac ymgyfraniad

Adeiladu cymunedau cynaliadwy, angen ymgysylltu ac ennyn ymgyfraniad cymunedau lleol i adeiladu ar wybodaeth, arbenigedd ac ennill perchnogaeth.

Biwrocratiaeth gyfredol – micro-reoli prosiectau, cyllido tymor byr ac ansicrwydd am ddyfodol cyllid (UE), gwrthdaro rhwng cynllunio tymor hir a chyfleoedd tymor byr.



Sut allai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i greu newid, a phwy sydd ag angen iddynt greu newid?

Ymgyfraniad ac ymgysylltiad ar gyfer cydweithio gwirioneddol

Mae cynyddu ymgysylltiad ac ymgyfraniad dinasyddion gweithgar yn allweddol – rhoi'r gallu i bobl leol gynyddu eu sgiliau a'u gallu. Yr angen i weithio'n well gyda'i gilydd a dylunio pethau mewn dull cydweithredol o'r cychwyn, gan roi diwedd ar y 'diwylliant dibyniaeth' ac annog mwy o gyfrifoldeb ymhlith unigolion (er enghraifft drwy fentora, bancio amser, gwirfoddoli).



Meithrin gallu

Dylai'r sector cyhoeddus fanteisio i'r eithaf ar yr holl adnoddau sydd ar gael yn lleol a chydabod gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr lleol yn y dasg o gynorthwyo newid. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfle i dorri drwy reoliadau/biwrocratiaeth a rhyddhau pobl i arloesi drwy arweinyddiaeth (nid rheoli), cyfrifoldeb a chydweithio personol. Angen cynorthwyo teuluoedd a chymunedau i rannu 'sgiliau o'r gorffennol' ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

"[Yn dilyn y digwyddiad hwn] byddaf yn gwneud egwyddorion a nodau yn rhan o fusnes craidd; yn canolbwyntio ar sut y mae'r hyn yr wyf yn ei wneud heddiw yn effeithio ar y dyfodol; yn sicrhau bod fy ymgysylltiad heddiw yn helpu'r dyfodol."

“Rydym wedi cynhyrchu'n cynllun lleoedd cymunedol a ganddo ymyriadau sy'n cydymffurfio â'r 7 nod llesiant. Mae hwn yn gynllun tymor hir sy'n dibynnu ar fewnbwn cymunedol ac yn anelu at weld y gymuned yn ennill perchnogaeth.”

Cyfathrebu ac addysg

Mae angen i ni newid o'n hagwedd 'fedrwn ni ddim' i agwedd 'mi fedrwn'; mae gan y cyfryngau rôl allweddol yn nhermau hybu newid cadarnhaol. Dylai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ganolbwyntio ar annog arweinyddiaeth (ar bob lefel) i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni – mae angen i ni fod yn ddewr, ac i gyhoeddi llwyddiant fel y gall eraill ddilyn. Mae angen i ni hybu cyfrifoldeb unigolion, addysgu'r gweithlu a phobl ifanc.


Cydnorthedd cymunedau lleol

Angen defnyddio tir lleol i gynorthwyo cydnorthedd cymunedol – manau agored, tyfu bwyd, mentrau cymdeithasol, digwyddiadau cymunedol. Dylid datblygu cydweithfeydd ar gyfer tai lleol, ac ymagwedd ‘gwneud ar eich liwt eich hun’ a sgiliau lleol. Bydd yn bwysig i chwilio am gymorth oddi wrth y sector preifat i ddatblygu modelau ac annog cyfalaf cymdeithasol – angen cydweithio, nid cystadlu am gyllid.



"[Yn dilyn y digwyddiad hwn] byddaf yn helpu busnesau lleol i ddeall sut y maent yn effeithio ar yr amgylchedd byd-eang a sut y gallant ymgysylltu â mentrau cymdeithasol lleol i wella llesiant eu staff".

"[Yn dilyn y digwyddiad hwn byddaf] yn parhau i weithio o fewn fy nghymuned i'w gwneud yn fwy cynaliadwy a chydnerth. Mae gennym y tyrbin cymunedol cyntaf yng Nghymru, caffi bwyd dros ben ac yn awr rydym yn gweithio ar adfywiad tref wedi ei arwain gan y gymuned gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel egwyddor sylfaenol."



"Angen newid dulliau cyrff cyhoeddus o feddwl, gan wneud newidiadau'n rhai gwirioneddol. Cynyddu rheoli addasol, gan alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn lleol, dangos arweinyddiaeth ac archwaeth at gyflawni, gan oresgyn syrthni sefydliadol a cheidwadaeth"

Newid diwylliant

Mae'r Ddeddf yn darparu cyfle, a chaiff ei chyflawni'n unig drwy newid diwahân mewn diwylliant. Mae'n darparu lifer ar gyfer mynnu bod yn rhaid i bethau newid – bydd rhaid i'r sector cyhoeddus weithio gyda'r holl bartneriaid i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd. Mae angen i ni newid normau cymdeithasol i wneud arfer gorau yn arfer cyffredin.

Beth yw'r materion o bwys?

Ailgyssylltu cymunedau

Mae angen i bobl ymddiddori a theimlo'u bod yn rhan o'u cymuned; mae angen i bawb ymgysylltu ond mewn dulliau newydd, arloesol oherwydd mae llawer o bobl wedi alaru ar ymgynghori. Rhaid i ymgysylltu fod yn fwy na rhywbeth dros dro, mae angen i bobl ddeall y gwahaniaeth a wneir gan eu cyfraniad a sut y mae'r canlyniadau'n cysylltu â'r nodau llesiant. Dylai ymgysylltiad gynnwys mapio pob penderfyniad sy'n galluogi pobl a chymunedau i ymdopi â'r prif faterion. Dengys y bleidlais ddiweddar yn y refferendwm bod angen mawr i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau gysylltu unwaith eto â'u cymunedau, a brwydro yn erbyn diffyg ymddiriedaeth a difaterwch.

Dinas-ranbarth a chynllunio cymunedol/seilwaith

Mae'n rhaid i'r Fargen Ddinesig a'r penderfyniadau cynllunio a ddylanwedir ganddi gael eu profi yn erbyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Canfyddir hyn fel rhywbeth sy'n ymwneud ag ego-brosiectau yn hytrach na buddsoddiad mewn prosiectau sydd eisoes wedi eu profi. Dylai cynllunio datblygiadau lleol ystyried ystod o anghenion yn cynnwys tai, seilwaith, gwasanaethau a bioamrywiaeth. Mae yna berygl y ceir cynlluniau generig a datrysiadau nad ydynt yn arwyddocaol ar lefel leol; ni ddylid tanbriso rôl cynghorau cymuned a throsglwyddiad asedau cymunedol. Dylid adeiladu cydnerthedd cymunedol drwy ymagweddau hunangynhaliol, yn arbennig mewn perthynas â chynhyrchu bwyd.

Cyflogaeth a thueddiadau poblogaeth

Prinder cyfleoedd cyflogaeth a niferoedd uchel o NEETS (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a lle mae swyddi'n cael eu creu nid ydynt y math o swyddi sy'n arwain at gynnydd mewn llesiant. Mae tlodi ariannol yn cyfyngu ar ddewisiadau a chyfleoedd pobl, sy'n arwain at anfodlonrwydd cyffredinol. Mae yna dlodi mewn addysg, uchelgais, adnoddau, cyfle i godi llais, a chyfleoedd. Mewn rhai ardaloedd mae tensiwn rhwng yr hyn y mae pobl oedrannus (sy'n medru pleidleisio) yn dymuno ei weld, a'r hyn y mae pobl ifanc (nad ydynt yn medru pleidleisio) yn dymuno ei weld. Mae yna faterion ehangach yn ymwneud â phoblogaeth sy'n heneiddio, yn cynnwys cydnabod y sgiliau a'r cyfraniadau a wneir gan y cenedlaethau hyn.

Sut allai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i greu newid, a phwy sydd ag angen iddynt greu newid?

Rhannu gwybodaeth

Dylid cael mwy o rannu gwybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth ar fanteision ac arfer gorau. Byddai cronni adnoddau a'u defnyddio i ddatblygu cynlluniau penodol lleol cymunedol yn helpu i roi fframwaith i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar gyfer cyflawni'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer gwneud cynlluniau'n rhai go iawn. Mae gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rôl mewn darparu ffordd o ateb ymholiadau parhaus wrth i gyrrff cyhoeddus ymdrechu i weithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Craffu a herio

Mae craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol a bydd yn penderfynu atebolrwydd awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae craffu neu gyflwyno adroddiadau o gymunedau yn elfen bwysig, a dylai gynrychioli amrywiaeth cymunedau. Mae'n bwysig i beidio craffu yn unig er mwyn craffu; yn hytrach dylid sicrhau ei fod yn effeithiol, a dylid sicrhau bod yr hyn sy'n deillio o graffu yn ddiddorol – nid yn unig yn 'gofnodion sychion'.

“Mae tryloywder yn hanfodol. Rhaid i ni greu cydbwysedd rhwng yr ymagwedd 'o'r brig i lawr' gyda chynlluniau o'r 'gwaelod i fyny' fel y gellir adfer ymddiriedaeth pobl yn y dyfodol, ac yn eu llywodraeth a'u gwneud yn ymwybodol o'u gallu hwy eu hunain i newid pethau er gwell yn lleol mewn dulliau ymarferol a phragmataidd”.



"Bydd yr [agenda] hwn yn cymryd cenedlaethau ac mae angen iddo gael ei gyd-gynhyrchu, gan gymryd i ystyriaeth ymgysylltiad cymunedol, rhannu pŵer, gwranddo. Mae gan bawb arbenigedd."

Byrddau Gwasanaethau Lleol

Mae gweithio mewn partneriaeth yn heriol ac mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ei fod yn llwyddo, er enghraifft drwy rannu cyllidebau. Bydd rhannu agenda rhwng cyrff cyhoeddus a mapio asedau cymdeithasol yn galluogi mynediad i adnoddau ar gyfer newid trawsffurfiol. Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio ar lefel uchel a lefel cymunedol, drwy greu sgysrsiau am broblemau strategol yn ogystal â rhai sy'n fwy seiliedig ar leoliad.

Atal

Un o'r heriau mwyaf yw sut i symud tuag at ymagwedd ataliol – gyda chyllid mwy cyfyng sy'n lleihau – tra'n cynnal gwasanaethau presennol. Mae cyllidebau 'un flwyddyn' yn gwneud hyn yn arbennig o anodd, ac mewn rhai cyrff mae timau 'ymyrraeth gynnar' wedi eu cwtdogi. Mae yna rai enghreifftiau arweiniol o ataliad – er enghraifft gwaith yr Heddlu'n ceisio atal troseddwr a rhai agored i niwed rhag dod i mewn i'r system, ond eto ag angen iddynt ymateb i sefyllfaoedd argyfyngus.

Ymgyfraniad ac ymgysylltiad

Dylai ymgyfraniad ymwneud â deialog dwy ffordd a'r gallu i adeiladu consensws, olrhain profiadau a chreu naratif am y defnydd o wasanaethau cyhoeddus a rennir, a fedr lywio dulliau o'u gwella. Nid yw cymunedau bob amser yn deall y cyfyngiadau ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, felly dylai ymgyfraniad helpu i egluro hyn.

“[Yn dilyn y digwyddiad hwn] byddaf yn ymgysylltu â phobl ar yr ymylon, heb rym, yn cynnwys mewnfudwyr a ffoaduriaid i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn y broses”.

Cydweithio ar draws sectorau

Mae angen i wahanol gyrff ddeall blaenoriaethau a chyfraniadau ei gilydd – un ffordd o helpu hyn fyddai drwy drefnu secondiadau ar draws gwahanol sefydliadau/sectorau. Mae yna ystod o gyrff nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth er bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae oherwydd eu bod yn weithgar ac yn weladwy mewn cymunedau – yn cynnwys y trydydd sector, yr heddlu a chymdeithasau tai.

“Rydym eisoes yn sylwi bod llai o weithio 'seilo' mewn cyrrff cyhoeddus. Mae yna hefyd ymgysylltiad cliriach rhyngddynt â ni yn y trydydd sector”.

Arweinyddiaeth a chyfathrebu

Mae gan y Comisiynydd rôl allweddol mewn creu'r amgylchedd ar gyfer ymagweddau ac ymddygiadau sydd eu hangen ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae yna gwestiwn am sut y mae'r cyfryngau'n adrodd ar yr hyn sy'n digwydd heb roi persbectifau digon eang – er enghraifft mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, Dylai gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod ar gael ar bob lefel, hyd yn oed i lawr i lefel ward. Dylid bod arweinyddiaeth yn nhermau archwilio – dywedir wrth bobl i fod yn arloesol ond maent yn betrusgar ynglŷn â gwneud pethau'n wahanol.

“Mae angen i'r neges ddod oddi wrth ein Harweinyddion. Mae angen i mi groesawu'r Ddeddf. Mae angen i mi ddylanwadu ar hyn – y cyfleoedd a'r elfennau cadarnhaol, nid yn unig yr heriau”.

Beth yw'r materion o bwys?

Cyflogaeth ac amddifadedd

Mae angen swyddi sy'n fwy o werth, i leihau allfudo ymhlith pobl ifanc. Mae nifer mawr o gartrefi'n byw mewn tlodi ac mae unigedd yn broblem. Ymarferoldeb canol trefi ac effaith canolfannau tu allan i ganol trefi.

Anghydraddoldebau iechyd

Mae'r canlyniadau i bobl yn anghyfartal. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, prinder mynediad i ofal plant a gordewdra yn ystod plentyndod.

Cymuned a manau diwylliannol

Mae angen gwneud mwy o ddefnydd o fannau cymunedol ac adnoddau naturiol a gall y ffordd yr ydym yn dylunio tai gyfrannu at lesiant meddyliol a chorfforol. Mae iaith a diwylliant yn bwysig i'r ardal a dylai manau cymunedol fod yn ddiogel ar gyfer chwarae ynddynt ac ar gyfer gweithgaredd corfforol.

Sut allai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i greu newid, a phwy sydd ag angen iddynt greu newid?




Ymwybyddiaeth gyhoeddus, cyfathrebu ac addysg

Mae angen i bobl leol wybod beth yw'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn ymgyfrannu'n effeithiol – mae angen cyfathrebu a negeseuon sylfaenol, syml, diddorol a safonedig. Mae angen ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Ddeddf ymhlith y rhai ar y lefel sylfaenol ac yn ein cymunedau; mae angen bod yn glir ynglŷn â rheoli disgwyliadau a chyfrifoldebau – beth fedr pobl ei wneud drostynt eu hunain? Gall cyrff addysgol chwarae rhan – dylai ysgolion fod yn hybu'r Ddeddf a datblygu dinasyddion byd-eang ar gyfer y dyfodol, a gall prifysgolion rannu ymchwil sy'n berthnasol i'r Ddeddf.

Gwasanaethau a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sut yr ydym yn datblygu gwasanaethau i siwtio pob angen; mae prinder gwybodaeth am wasanaethau'n rhwystro ymgyfraniad a chydweithio. Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus greu agenda cyffredin a rennir, sy'n gwneud synnwyr ar lefel leol, a dylai sbarduno'r agenda lleol gyda thystiolaeth o'r 'gwaelod i fyny' a dangos ymgysylltiad cymunedol drwy ddarparu tystiolaeth o angen gwirioneddol. Disgwylir i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledaenu'r gair ond mae'n bosib nad oes ganddynt y gofod, yr amser a'r adnoddau i gynnal sgysiau 'EHANGACH'. Byddai bas data cyffredin yn cynorthwyo ymgyfraniad a phartneriaeth waith effeithiol er y bydd yn bwysig i beidio gornwneud hyn neu gynnal ymgyngoriadau 'ffug' heb y bwriad pendant i wrando a gweithredu.



"Mae rhai cymunedau'n ymbellhau oherwydd bod gormod o ymgyngori neu ddiffyg unrhyw newid gwirioneddol".

“ Mae angen newid mewn diwylliant i ddathlu'r llwyddiannau gwirioneddol hyn a dylai ymwybyddiaeth o hyn gael ei ledaenu ar draws gogledd Cymru i lywio penderfyniadau.”

”

"Mae angen i newid gwirioneddol gael ei arwain gan y gymuned – mae angen iddynt gael eu hysbrydoli. Mae angen mwy o help i ganiatáu i gyrff cyhoeddus gynorthwyo a chynghori cymunedau ar ddwyn mentrau yn eu blaen a thrwy hynny ddod yn gydnherth."

Newid diwylliant ac atebolrwydd

Mae'r pum ffordd o weithio'n bwysig ar gyfer creu newid megis drwy integreiddio gwasanaethau a thrwy ymagwedd sector cyhoeddus gydweithredol tuag at faterion o bwys. Mae ar bob sector angen arweiniad hygyrch a chyson ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd peintio darlun o'r dyfodol yn helpu i greu gweledigaeth. Mae angen newid diwylliant yn y sector cyhoeddus i wneud pethau'n wahanol ac i edrych ar y Ddeddf fel cyfle, nid fel problem. Mae ymagwedd tymor byr y sector cyhoeddus o'i gymharu ag anghenion tymor hir y gymuned yn her ac mae angen mwy o ymrwymiad i wrando a newid. Mae cymunedau'n cymryd mwy o ddiddordeb mewn gwasanaethau ac yn cymryd rhan mewn cynllunio a chraffu. Rhaid annog atebolrwydd drwy'r Ddeddf a bydd archwilio'n helpu i sicrhau bod newid yn cael ei gyflawni.

Arfer da ar draws sefydliadau a sectorau

Nid oes angen dyblygu neu gychwyn o'r newydd gyda phopeth; mae yna lawer o waith da yn digwydd eisoes sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai busnesau mawr a bach rannu'r agenda cyffredin hwn a sicrhau cynnydd drwy weithgaredd priodol, er enghraifft drwy lai o siwgr mewn cynnyrch, bod yn garbon niwtral ayyb. Gall mentrau cymdeithasol nid-am-elw hefyd greu newid. Mae cynghorau tref a chymuned yn asedau ac yn strwythurau lleol sy'n trefnu ar gyfer annog newid ar lefel leol, yn cynnwys annog trefniadau trosglwyddo asedau.

Digwyddiad rhanddeiliaid Canolbarth Cymru

Mercher 20fed Gorffennaf 2016, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol, Llandrindod

Beth yw'r materion o bwys?

Cyflogaeth ar Arloesedd

Mae angen mwy o gymorth ar fentrau fel y gall arloesedd gychwyn a ffynnu mewn amgylchedd gwledig, gan arwain at well cyfleoedd gwaith.

Ardaloedd gwledig a seilwaith

Bydd tai mwy fforddiadwy a chartrefi cynaliadwy'n mynd i'r afael ag allfudo ymhlith pobl ifanc. Seilwaith trafndiaeth a chysylltiadau TG. Angen mwy o gydweithio gyda rhannau eraill o Gymru.

Ynni

Seilwaith ynni adnewyddadwy a manteision i'r gymuned a pherchenogaeth prosiectau.

Ymgysylltiad cymunedol a chyfleoedd

Gwell cyfleoedd economaidd, addysgol a diwylliannol i gadw a denu pobl iau. Ymgysylltiad cymunedol ac adeiladu ar gyfalaf cymdeithasol i wneud penderfyniadau gwell a mwy hirdymor, i sicrhau bod sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Sut allai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i greu newid, a phwy sydd ag angen iddynt greu newid?

Bwrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae angen i'r Ddeddf greu diwylliant o bartneriaid cyfartal fel y gall pobl real gael dylanwad ar benderfyniadau; mae angen iddi fod yn fethodoleg sy'n seiliedig ar asedau nid yn un sy'n edrych yn unig ar anghenion. Mae yna gyfleoedd i Gyngorau Tref a Chymuned gyfrannu mwy yn natblygiad cynlluniau lleol a helpu i gyflawni gwasanaethau ar lefel leol. Gellid gwella cynrychiolaeth y trydydd sector mewn gwneud penderfyniadau drwy fwy o gysylltiad rhwng grwpiau lleol a rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uchel o fewn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

“Oes arnom angen cymaint o gyrrff cyhoeddus (cynghorau tref a chynghorau cymuned) ar gyfer cyflwyno gwasanaethau – a ellid rhannu rhai rolau.”

Cydweledigaeth a chydweithio

Mae'r Ddeddf yn gyfle i ddatblygu cydweledigaeth a gwell cydweithio i wella ardaloedd. Mae angen i'r cyfathrebu dwy ffordd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau gael ei wella a'i gynnal – mae angen sgwrs barhaol nid ymgynghoriad byr. Mae angen i wasanaethau gydweithio i rannu adnoddau, er mwyn lleihau aneffeithlonrwydd a gwneud gwell defnydd o arian cyhoeddus a gwybodaeth leol.



"Cymorth i annog cymunedau lleol i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfri a gweithio gyda chyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol. Gwneud cyrff cyhoeddus yn 'alluogwyr', cyrff sydd ar hyn o bryd mewn llawer o wahanol achosion yn medru bod yn rhwystr".

"Gwobrwyo a chosbi!
Byddwch yn hy a dygwch bobl i gyfri, ond mae angen i bobl wybod pam mae'r gosb yn cael ei bygwth."

Amserlenni a newid diwylliant

Mae yna gyfleoedd ar gyfer meddwl yn y tymor hir am "Bowys y dyfodol", a symud i ffwrdd o gylchoedd gweithio tymor byr/gwleidyddol. Mae angen i hyn gael ei ddangos o lefel Gweinidogion Llywodraeth Cymru i lawr i lefel cynghorwyr lleol. Mae angen cyfle i ymgysylltu â phobl ifanc i helpu i rannu'r weledigaeth o'u lle hwy, a allai olygu cydweithio gyda llefydd eraill yn Lloegr. Rhaid i'r galw ar wasanaethau a lleihad mewn cyllido olygu gwahanol ddulliau o weithio – i wneud hyn mae angen meddyliau creadigol a dileu tueddiadau yn niwylliant sefydliadau.

Hydfa a her

Mae angen i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn hy a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn dal ymlaen i wneud y pethau cywir heb ddychwelyd at hen arferion; mae angen iddi ymarfer ei phwerau i herio. Mae angen i newid ennyn ymgysylltu pobl leol – os ydych chi cymunedau'n medru dylanwadu ar newid, yna mae angen iddynt ymgysylltu â'r materion pwysig.

“I adeiladu cymunedau cydnerth mae angen cydweithio nid gweithio mewn seilos – sut yr eir i'r afael â hyn, drwy gymell neu lywodraethu?”

”

"Mae angen i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wneud yn siŵr bod newid yn digwydd ac nad yw'r diwylliant o fwrw bai'n cael ei symud o le i le, a bod pob un o'r saith nod yn cael eu hyrwyddo."

Sefydliadau yr ymgysylltwyd â hwynt rhwng Chwefror - Hydref 2016

A Regional Collaboration for Health (ARCH)	Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
Academi Wales	Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru	Comisiwn Tŵf a Chystadleugarwch Cytundeb Dinesig
Amgueddfa Cymru	Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Anabledd Cymru	Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru	Comisiynydd Plant Cymru
Awdurdod a Gwasanaeth Tân De Cymru	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Comisiynydd Y Gymraeg
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Concern Universal
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Cronfa Loteri Fawr
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Cyddfederasiwn GIG Cymru
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru
Barnardo's Cymru	Cyfeillion y Ddaear Cymru
Bat Conservation Trust	Cyfoeth Naturiol Cymru
Blake Morgan	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
BMA Cymru	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Boots Alliance	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
British Gas	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
BT Cymru / Wales	Cymorth Cymru
Business in the Community Cymru	Cymorth i Ferched Cymru
Busnes Cymru	Cymru'r Gyfraith
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan	Cyngor ar Bopeth Cymru
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	Cyngor Bro Morgannwg
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili	Cyngor Bro Morgannwg
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin	Cyngor Brwdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen	Cyngor Brwdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Cyngor Brwdeistref Sirol Blaenau Gwent
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cyngor Brwdeistref Sirol Caerffili
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Cyngor Brwdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cyngor Brwdeistref Sirol Conwy
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cyngor Brwdeistref Sirol Penybont
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Cyngor Brwdeistref Sirol Torfaen
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cyngor Brwdeistref Sirol Wrecsam
Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Dde-Ddwyrain	Cyngor Dinas Caerdydd
Cadwch Gymru'n Daclus	Cyngor Celfyddydau Cymru
Canolfan Adfywio Cymru (CREW)	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)
Canolfan Cydweithredol Cymru	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru	Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Technoleg Amgen	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Capital Law	Cyngor Gwynedd
Carbon Trust	Cyngor Sir Ceredigion
CBI Cymru	Cyngor Sir Ddinbych
Chartered Institute of Housing	Cyngor Sir Fynwy
Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA)	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Chwarae Cymru	Cyngor Sir Penfro
Chwarae Teg	Cyngor Sir Powys
Chwaraeon Cymru	Cyngor Sir Ynys Môn
Clwbiau Ffermwyr Ifanc (CCFFI)	Cynnal Cymru
	Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Aelodau Seneddol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Clercod Pwyllgorau
 Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Grŵp Trawsbleidiol Materion
 Gwledig
 Deloitte UK
 Dinas and Sir Abertawe
 Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
 Diverse Cymru
 Down to Earth Project
 Dŵr Cymru Welsh Water
 Early Action Task Force
 Ecodyfi
 Electoral Reform Society
 Emergence
 Estyn
 Ethisphere
 Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
 Finland National Audit Office
 Finnish Environment Institute
 Finnish Ombudsman
 FSB Cymru
 Gardd Fotaneg Cenedlaethol Cymru
 Gas and Electricity Markets Authority
 Good Energy
 Grayling Cymru
 Groundwork Wales
 Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r Cymru
 Gŵyl y Gelli
 Hawliau Plant yng Nghymru
 Heddlu De Cymru
 Hub Cymru Africa
 Iechyd Cyhoeddus Cymru
 Ieuenctid Cymru
 Incredible Oceans
 Insight Wales Consulting Ltd
 INSPIRE
 Institute of Primary Care and Public Health
 Involve
 Llamau
 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 Llywodraeth Cymru - Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a
 Thechnoleg
 Llywodraeth Cymru - Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
 Llywodraeth Cymru - Aelodau'r Cynulliad
 Llywodraeth Cymru - Cadw
 Llywodraeth Cymru - Cyfarwyddwr GIG Cymru
 Llywodraeth Cymru - Prif Swyddog Meddygol Cymru
 Llywodraeth Cymru - Prif Weinidog Cymru
 Llywodraeth Cymru - Swyddfa'r Prif Gynhorydd Gwyddonol
 Cymru
 Llywodraeth Cymru - Ysgrifennydd y Cabinet dros
 Gymunedau a Phlant.
 Llywodraeth Cymru - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd,
 Llesiant a Chwaraeon.
 Llywodraeth Cymru -Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a
 Llywodraeth Leol.
 Masnach Teg Cymru
 Media Academy Cardiff
 Melin Homes
 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus
 Merched yn Gwneud Gwahaniaeth
 Mind Cymru
 MTR Corporation
 Netherwood Sustainable Futures
 New Economics Foundation
 NSPCC Cymru
 Nudjed
 NUS Cymru
 Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 Oxfam Cymru
 Oxford Martin School
 Peopletoo
 Plant yng Nghymru
 Pobl Group
 Positif Politics
 Prifysgol Bangor
 Prifysgol Caerdydd
 Prifysgol Caergrawnt
 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
 PWC
 Quebec Government Office in Washington
 Race Council Cymru
 Renewable UK Cymru
 Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru
 Rhanbarth y Brifddinas Caerdydd Twf a Chomisiwn
 Cystadleurwydd
 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
 RNIB Cymru
 Royal College of Physicians
 RSPB Cymru
 RWE
 Samaritans
 School of international Futures
 Scouts Cymru
 Sefydliad Bevan
 Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru
 Smart Energy GB
 Spice
 Stonewall Cymru
 Swyddfa Archwilio Cymru
 Swyddfa Maer Yr Ifanc Bro Morgannwg
 TATA
 Tenovus Gofal Canser

The Climate Group
The Green Valleys
The TYF Group
The Young Foundation
Tidal Lagoon Power
TUC Cymru
UK Committee on Climate Change
UK Stakeholders for Sustainable Development (UKSSD)
Undeb Amaethwyr Cymru
Uned Ddata Llywodraeth Leol
Uned Hawliau Plant Castell-Nedd Port Talbot
Violence Reduction Unit Scotland
Voluntary Arts Cymru
Wales Alliance for Global Education
Welsh Collaboration for Health and the Environment
WRAP Cymru
WWF Cymru
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Y Comisiwn Bevan
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
Y Prif Swyddog Meddygol
Ymchwil Canser Cymru
Ymddiriedolaeth Adeiladu Ieuencid (CWVYS)
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Natur
Ynni Cymunedol Cymru
Youth Sport Trust
Ysgol Fusnes Caerdydd